Cacen Gri

Sgiliau
Rhwbio mewn

Cynhwysion
225 gram blawd codi
110 gram o fenyn Cymreig
1 ŵy
llond dwrn o swltanas
85gram o siwgr caster
pinsied o sbeis cymysg
mymryn o lefrith os bydd angen
menyn i iro
Ychydig mwy o siwgr i weini

Dull
1. Rhwbiwch y menyn i mewn i'r blawd nes fod y cwbl fel briwsion bara.
2. Ychwanegwch y siwgr, y ffrwythau sych, y sbeis a'r ŵy.
3. Cymysgwch y cwbl i greu pelen o does gan ddefnyddio diferyn o lefrith os bydd angen.
4. Rhowliwch y toes nes ei fod yn 5mm o drwch a'i dorri yn siapiau gyda thorrwr.
5. Irwch y radell (neu badell ffrio drom) gyda menyn a gadewch iddi gynhesu.
6. Rhowch y cacennau ar y radell gan adael iddynt goginio am tua 2-3 munud bob ochr.
7. Rhowch fymryn o siwgr arnynt cyn eu gweini'n gynnes.